# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mai 2020

Amser: 11.15 - 11.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6105

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)531 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(5)538 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(5)539 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 3.1 SL(5)534 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Suzy Davies AC fuddiant.

### 4.2 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Fforwm Masnach Gweinidogol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amaethyddiaeth – adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod fersiwn â man newidiadau yn ystod ei gyfarfod ar 11 Mai.

Nododd y Pwyllgor y dyddiad cau estynedig ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 14 Mai, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Busnes.

**Cyn cau'r cyfarfod, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, mai Carwyn Jones AC fyddai'r Cadeirydd Dros Dro pe bai'r Cadeirydd arferol yn gorfod gadael y cyfarfod am resymau technegol.**